# Dogfen Ymgynghori Statudol

# Ysgol Craig yr Wylfa

# Hydref 2024

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Ysgol Craig yr Wylfa**

**Y cynnig**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa. Dyma'r cynnig:

- Cau Ysgol Craig yr Wylfa o 31 Awst 2025, gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Talybont.

**Cefndir**

Ar 2 Mai 2023, cymeradwyodd y Cabinet y ddogfen 'Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy', sydd bellach yn sail i unrhyw gynnig ad-drefnu ysgolion arfaethedig nad yw'n bodloni un neu ragor o'r egwyddorion canlynol :-

- P1 Parhau i sicrhau darpariaeth, arweinyddiaeth a safonau rhagorol mewn ysgolion/lleoliadau ar gyfer pob grŵp o ddisgyblion, sy'n adlewyrchu gofynion Cwricwlwm i Gymru a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol
- P2 Parhau i gynyddu capasiti i sicrhau bod gan Arweinwyr Ysgolion yr amser priodol i arwain a rheoli eu hysgolion
- P3 Parhau i ddatblygu darpariaeth Gymraeg i sicrhau cymwyseddau dwyieithog ein plant a phobl ifanc
- P4 Parhau i ddatblygu darpariaeth addysg ar gyfer plant 3 oed mewn ysgolion fel sy'n briodol
- P5 Darparu amgylcheddau dysgu rhagorol i blant, pobl ifanc, staff a'r gymuned ehangach
- P6 Gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau i sicrhau isadeiledd cynaliadwy
- P7 Sicrhau mynediad cyfartal a theg at ystod eang o gyfleoedd dysgu a chyrsiau ôl 14 ac 16 i baratoi plant a phobl ifanc medrus iawn a chymwys ar gyfer eu camau nesaf mewn addysg, hyfforddiant neu'r gweithle

Cynhaliwyd cyfarfod o'r ffrwd gwaith Isadeiledd Addysg ar 1 Chwefror 2024 lle rhannwyd manylion yr ysgolion oedd heb fodloni un neu ragor o'r egwyddorion. Roedd y wybodaeth a rannwyd gydag Aelodau'n cynnwys:-

- niferoedd disgyblion
- capasiti'r ysgol
- rhagamcanion niferoedd disgyblion
- cost fesul disgybl
- cyflwr adeiladau'r ysgol
- ôl-groniad o gostau cynnal a chadw

Nodwyd bod gan Ysgol Craig yr Wylfa heriau o ran bodloni P1, P2 a P6 o'r 'Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy' ac felly fe'i dewiswyd i'w hadolygu.

Cynhaliwyd cyfarfod hefyd gyda'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr ar 2 Chwefror 2024 a 20 Chwefror 2024.

Roedd y cynigion arbedion a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 29 Chwefror 2024 yn cynnwys argymhelliad bod y Gwasanaeth Ysgolion yn adolygu hyfywedd yr ystâd ysgolion i'r dyfodol. Yn ogystal, mae Strategaeth Gorfforaethol 2022 – 2027 yn cadarnhau'r angen i adolygu lleoedd ysgol yn barhaus er mwyn sicrhau gwydnwch ariannol i gynnal isadeiledd cynaliadwy.

**Rhagdybiaeth yn erbyn cau Ysgolion Gwledig**

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cynnwys trefniadau gweithdrefnol ychwanegol mewn perthynas ag ysgolion sydd wedi'u nodi'n ysgolion gwledig, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn gweithdrefnau a gofynion manylach wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig.

Fel y nodir yn y Cod:

*'Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod yn rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio'*

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cynnwys nifer o gamau gofynnol i'w cymryd wrth lunio cynnig ysgol wledig sy'n ymwneud â'r penawdau canlynol:

- Llunio'r cynnig
- Nodi opsiynau rhesymol eraill
- Paratoi papur cynnig ar gyfer y penderfynwr

Gan fod y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi Ysgol Craig yr Wylfa fel ysgol wledig, cafodd y gofynion ychwanegol ar gyfer ysgolion gwledig sylw wrth ddatblygu'r papur cynnig, a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 3 Medi gyda'r argymhelliad canlynol:

*'Cymeradwyo'r cynnig i ddechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad statudol er mwyn dod i ben â'r ddarpariaeth yn Ysgol Craig yr Wylfa o 31 Awst 2025'*

**Cod Trefniadaeth Ysgolion**

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, cyn penderfynu mynd ati i ymgynghori ai peidio, cyflwynwyd papur cynnig i'r Cabinet a oedd yn cynnwys:

- Y rheswm dros y cynnig i gau
- Rhestr o opsiynau rhesymol eraill yn hytrach na chau a nodwyd; ac
- Asesiad o'r canlynol ar gyfer pob un o'r opsiynau rhesymol a nodwyd:
  - Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau mewn Addysg
  - Effaith debygol ar y gymuned
  - Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol.

**Y Cyd destun Strategol**

Cafodd Cyngor Sir Ceredigion ei arolygu gan Estyn yn mis Mehefin 2024. Amlinellodd yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn y canlynol:

- Mae gan yr awdurdod hanes da o gynnal a gwella ei ddarpariaeth a chyflawni deilliannau da i blant a phobl ifanc Ceredigion

- Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu buddsoddi yn ei wasanaeth addysg ac ysgolion, yn unol â'i amcan yn ei strategaeth gorfforaethol.

- Mae'r awdurdod lleol yn adolygu ei strwythurau ac yn cynllunio ar gyfer yr hir dymor er mwyn sicrhau gwerth am arian yn barhaus

- Mae trefniadau'r awdurdod o ran datblygu'r Gymraeg yn gryfder arwyddocaol, ble gwelir sawl agwedd o ragoriaeth ymhlith ei ddarpariaeth a'i arferion.

## 1. DISGRIFIAD A MANTEISION

**Status Quo –** Mae Ysgol Craig yr Wylfa yn rhan o ffederasiwn anffurfiol / clwstwr gydag Ysgol Talybont, gyda'r ddwy ysgol yn rhannu Pennaeth. Mae gan y ddwy ysgol ei gyllideb a'i chorff Llywodraethol eu hunain.

Mae'r cryfderau a'r gwendidau o barhau â'r sefyllfa bresennol wedi'u nodi isod.

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Cadw hunaniaeth yr ysgol a'i phresenoldeb yn y gymuned | Mae'r ysgol yn wynebu diffyg cyllidebol erbyn Mawrth 2025 |
| Dim amharu ar ddisgyblion a staff | Mae'r rhagamcanion yn dangos gostyngiad yn nifer y disgyblion i 22 erbyn 2029 |
| Dim costau cludiant ychwanegol | Bydd y gost fesul disgybl yn cynyddu ymhellach os bydd nifer y disgyblion yn parhau i ostwng. |
| Dim angen unrhyw broses ad-drefnu | Byddai'r atebolrwydd o ran costau cynnal a chadw'r eiddo yn parhau, nawr ac yn y dyfodol |
| Byddai ansawdd da yr addysgu a'r dysgu yn parhau | Ni fyddai'n arwain at yr arbedion ariannol gofynnol |
| | Byddai lleoedd gwag ar gael o hyd |
| | Yr her o gael un dosbarth yn unig yn y Cyfnod Dysgu Sylfaen a'r dosbarth arall yng Nghyfnod Allweddol 2, i gwrdd yn effeithiol â gofynion darparu Cwricwlwm i Gymru |

**Heriau Allweddol sy'n wynebu Ysgol Craig yr Wylfa a pam yr ystyrir bod angen newid**

**(i) Niferoedd disgyblion:**

**a) CYBLD**

Yn ôl ffigurau CYBLD mae'r niferoedd disgyblion yn isel, ac wedi gostwng o 42 disgybl yn 2020 i 29 disgybl yn 2024.

| | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Niferoedd disgyblion CYBLD | 42 | 36 | 28 | 26 | 29 |

**b) Cyfredol (data Canolfan Athrawon 3/10/24)**

Mae'r niferoedd disgyblion wedi lleihau ymhellach ers CYBLD 2024 i 24 disgybl erbyn Hydref 2024 h.y. lleihad o 5 disgybl

| | R | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd disgyblion – Craig yr Wylfa** | 1 | 5 | 2 | 5 | 5 | 4 | 2 | 24 |

**(ii) Rhagamcanion disgyblion**

Mae'r rhagamcanion yn dangos gostyngiad pellach dros y 5 mlynedd nesaf, i 22 o ddisgyblion erbyn 2029

| | Ion 2025 | Ion 2026 | Ion 2027 | Ion 2028 | Ion 2029 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagamcanion disgyblion | 27 | 29 | 28 | 24 | 22 |

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion LIC, mae'n ofynnol cynnwys rhagamcanion 5 mlynedd o'r niferoedd disgyblion ar y gofrestr. Mae'r rhagamcanion wedi eu seilio ar ddata CYBLD 2024 a chyfradd geni Ceredigion.

Mae'r nifer o geisiadau a dderbyniwyd i fynychu Ysgol Craig yr Wylfa wedi'u crynhoi isod. Dyddiad cau ceisiadau ar gyfer unrhyw flwyddyn academaidd yw 31 Ionawr y flwyddyn flaenorol.

Nifer o geisiadau a dderbyniwyd i Ysgol Craig yr Wylfa (sefyllfa ar 3/10/24):

| Blwyddyn Academaidd | Medi | Ionawr | Ebrill | Cyfanswm ar gyfer y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2024/25** | Ddim yn berthnasol | 0 | 3 | 3 |
| **2025/26** | 3 | 0 | 1 | 4 |
| **2026/27** | 2 | 1 | 0 | 3 |
| **2027/28** | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **2028/29** | 0 | 0 | 0 | 0 |

Ar sail y nifer o geisiadau a dderbyniwyd, bydd 24 o ddisgyblion yn Ysgol Craig yr Wylfa ym mis Ionawr 2025 h.y. 3 yn llai na'r rhagamcan.

Erbyn Medi 2025:

| | **R** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd disgyblion – Craig yr Wylfa** | 6 | 1 | 5 | 2 | 5 | 5 | 4 | 28 |

### (iii) Darparu'r cwricwlwm

Mae staff addysgu Ysgol Craig yr Wylfa yn wynebu'r her o baratoi ar gyfer addysgu un dosbarth oed cymysg a gallu cymysg ar draws y cyfnod dysgu sylfaen cyfan ac un dosbarth gallu cymysg oedran cymysg ar draws cyfnod allweddol 2.

Nodir yng nghanllaw Cwricwlwm i Gymru bod yn "rhaid rhoi cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddysgwyr:

- Ddatblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
- Gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn
- Bod yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

O fewn dosbarth oed cymysg, mae'n fwy heriol gwahaniaethu, er mwyn cwrdd ag anghenion ystod o alluoedd ac oedran o fewn yr un dosbarth.  Mae hyn yn wir yn arbennig pan fo 3 i 4 grŵp blwyddyn mewn dosbarth oed cymysg.

### (iv) Lleoedd dros ben

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi:

*"Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol,* ***dylai*** *awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth ac ystyried os y* ***dylent*** *wneud cynigion ar gyfer cael gwared arnynt, os y bydd yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darpariaeth. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol* ***ac*** *o leiaf 30 o leoedd gwag."*

Ar hyn o bryd mae 50 o leoedd dros ben yn Ysgol Craig yr Wylfa sef 68% (i'r pwynt canran agosaf)

| Enw'r Ysgol | Niferoedd disgyblion Hydref 2024 | Capasiti yr ysgol | Lleoedd dros ben | % lleoedd dros ben |
|---|---|---|---|---|
| Craig yr Wylfa | 24 | 74 | 50 | 68% |


### (v) Cost fesul disgybl

Y gost fesul disgybl[1] yn Ysgol Craig yr Wylfa yw £7,219, sydd £2,265 yn uwch na chyfartaledd Ceredigion o £4,954.

| Ysgol | Cost fesul disgybl 2024/25 |
|---|---|
| Craig yr Wylfa | £7,219 |
| **Cyfartaledd ysgolion cynradd Ceredigion** | **£4,954** |

### (vi) Cyllideb yr ysgol

Mae'r gostyngiad yn nifer y disgyblion dros gyfnod cymharol fyr wedi rhoi pwysau sylweddol ar gyllideb yr ysgol a rhagwelir y bydd diffyg cyllidebol erbyn Mawrth 2025




[1] Cyfrifir y gost fesul disgybl drwy rannu'r gyllideb Ysgol unigol ar gyfer 24/25 gyda'r nifer o ddisgyblion yn yr Ysgol ar CYBLD 2024

**Manteision disgwyliedig y cynnig o gymharu â'r sefyllfa bresennol**

- Mi fyddai'n mynd i'r afael â'r nifer isel o ddisgyblion
- Byddai'r disgyblion yn mynychu ysgol gyda charfan fwy o ddisgyblion, lle byddent yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau ystod oedran tebyg gan ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cymorth a dysgu gan gymheiriaid
- Byddai'r disgyblion yn debygol o gael mynediad at amrywiaeth ehangach o weithgareddau addysgol ac allgyrsiol
- Gwella cyfleoedd i fodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru
- Byddai arbedion refeniw o gau yn cyfrannu at hyfywedd ariannol parhaus y seilwaith ysgolion yn gyffredinol
- Sicrhau effeithlonrwydd ariannol drwy leihau'r gost fesul disgybl
- Byddai'r ôl groniad o gostau cynnal a chadw'n cael ei ddileu, nawr ac yn y dyfodol yn Ysgol Craig yr Wylfa

**Anfanteision disgwyliedig y cynnig o gymharu â'r sefyllfa bresennol**

- Cyfnod o ansefydlogrwydd i'r disgyblion wrth drosglwyddo i Ysgol Talybont
- Byddai gostyngiad yn nifer y staff
- Mwy o gostau cludiant i'r Awdurdod Lleol
- Siwrneiau teithio pellach i rai, neu'r holl ddisgyblion

**Risgiau**

Y risgiau sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol a'r mesurau sy'n ofynnol i'w rheoli nhw

- ➢ Byddai ymgysylltu agos â'r disgyblion, y rhieni a'r gymuned yn hanfodol bwysig i leihau a rheoli unrhyw risgiau posib
- ➢ Byddai angen cynnig cymorth i ddisgyblion agored i niwed neu rai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i drosglwyddo i Ysgol Talybont
- ➢ Byddai angen cefnogi'r broses o symud i ysgol wahanol mewn ffordd sensitif a gofalus i sicrhau cynnydd yn y broses ddysgu ac addysgu
- ➢ Byddai angen cynnig cefnogaeth i staff ysgol a'u diweddaru'n rheolaidd yn ystod y broses, ar y cyd ag unrhyw Undebau Llafur perthnasol ac adran Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol.

**Yr opsiynau a ystyriwyd ar gyfer Ysgol Craig yr Wylfa**

Nodwyd yr opsiynau canlynol yn y papur cynnig a chynhaliwyd dadansoddiad SWOT ar gyfer pob opsiwn:

- **Un Ysgol ar ddau safle – Safle Talybont a Safle Craig yr Wylfa**

Mae'r opsiwn wedi ei wrthod am y rhesymau canlynol:

- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r niferoedd disgyblion isel
- Yr angen i gynnal dau adeilad
- Byddai lleoedd gwag o hyd
- Colli ymreolaeth
- Ni fyddai'n arwain at yr arbedion ariannol gofynnol
- Byddai'r atebolrwydd dros gynnal a chadw'r adeiladau'n parhau, nawr ac yn y dyfodol
- Yr her o gael un dosbarth yn unig yn y Cyfnod Dysgu Sylfaen a'r dosbarth arall yng Nghyfnod Allweddol 2, i gwrdd yn effeithiol â gofynion darparu Cwricwlwm i Gymru.

- **Ffederasiwn Ffurfiol rhwng Ysgol Talybont ac Ysgol Craig yr Wylfa**

Mae'r opsiwn wedi ei wrthod am y rhesymau canlynol:

- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r niferoedd disgyblion isel
- Angen cynnal y ddau adeilad ysgol
- Ni fyddai'n arwain at arbedion ariannol gofynnol
- Byddai'r gost fesul disgybl yn Ysgol Craig yr Wylfa yn parhau 46% yn fwy na'r cyfartaledd sirol
- Byddai'r atebolrwydd yn parhau o ran cynnal a chadw adeiladau, nawr ac yn y dyfodol
- Ni fyddai'n debygol o wella hyfywedd yr ystâd ysgolion yn y dyfodol
- Mi fyddai dwy gyllideb ar wahân o hyd, a allai greu anawsterau gweithredu
- Yr her o gael un dosbarth yn unig yn y Cyfnod Dysgu Sylfaen a'r dosbarth arall yng Nghyfnod Allweddol 2, i gwrdd yn effeithiol â gofynion darparu Cwricwlwm i Gymru.
- Byddai angen cynnal ymgynghoriad ar wahân i gydymffurfio gyda canllaw LIC 011/2014 – 'Proses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru'
- Byddai'r ddwy ysgol yn parhau i gael eu harolygu fel endidau ar wahân a byddai'n ofynnol iddynt ddarparu datganiadau unigol i Lywodraeth Cymru

**Newid i drefniadau teithio dysgwyr petai'r cynnig yn cael ei weithredu**

Mae'n bosib y byddai disgyblion sydd ar gofrestr Ysgol Craig yr Wylfa ar hyn o bryd yn gorfod teithio'n bellach. Fodd bynnag, mae'r pellter rhwng Ysgol Craig yr Wylfa a Ysgol Talybont yn 5 milltir, a byddai cludiant am ddim yn cael ei ddarparu yn unol â'r polisi cludiant: [polisi-cludiant-or-cartref-ir-ysgol-coleg.pdf (ceredigion.gov.uk)]..

Petai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo a bod Ysgol Craig yr Wylfa yn cau ddiwedd Awst 2025:

- Bydd disgyblion sydd ar hyn o bryd yn derbyn cludiant am ddim i fynychu Ysgol Craig yr Wylfa yn cael cludiant am ddim o'u cyfeiriad cartref/ man codi presennol i Ysgol Talybont.
- Bydd disgyblion nad ydynt ar hyn o bryd yn derbyn cludiant am ddim i fynychu Ysgol Craig yr Wylfa yn cael cludiant am ddim o fan(nau) codi dynodedig yn Borth i Ysgol Talybont, os ydynt wedi cyrraedd oed Ysgol statudol.

Bydd unrhyw ddisgyblion sydd fod dechrau'r Ysgol o fis Medi 2025 ymlaen yn cael cludiant am ddim o'u cyfeiriad cartref i'w hysgol agosaf os ydynt yn bodloni pob un o'r canlynol:

- wedi cyrraedd oed Ysgol statudol
- yn mynychu eu hysgol addas agosaf ac yn byw dros 2 filltir o'r ysgol

Bydd brodyr a chwiorydd plant sy'n mynychu Ysgol Craig yr Wylfa ar hyn o bryd ond yn cael cludiant am ddim i Ysgol Talybont os ydynt wedi cyrraedd oed Ysgol statudol ac mai dyna yw eu hysgol addas agosaf.

**Effaith ar hygyrchedd y ddarpariaeth pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu**

Byddai cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol hefyd yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys yn unol â'r polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

## 2. MANYLION YR YSGOLION Y MAE'R CYNNIG YN EFFEITHIO ARNYNT

a. **Enwau, lleoliad, categori, cyfrwng iaith**

| Enw'r ysgol | Lleoliad | Categori ysgol | Cyfrwng iaith | Ystod oedran |
|---|---|---|---|---|
| Craig yr Wylfa | Heol Ffrancis<br>Borth<br>SY24 5NJ | Cymunedol | Cymraeg | 4 - 11 |
| Talybont | Talybont<br>Aberystwyth<br>SY24 5HE | Cymunedol | Cymraeg | 4 - 11 |

**b. Niferoedd disgyblion a rhagamcanion**

**CYBLD**

| | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Craig yr Wylfa | 42 | 36 | 28 | 26 | 29 |
| Talybont | 77 | 79 | 73 | 80 | 64 |

**Niferoedd Cyfredol**

Niferoedd cyfredol 3 Hydref 2024

| Enw'r ysgol | D | Bl 1 | Bl 2 | Bl 3 | Bl 4 | Bl 5 | Bl 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Craig yr Wylfa | 1 | 5 | 2 | 5 | 5 | 4 | 2 | 24 |
| Talybont | 3 | 5 | 8 | 7 | 9 | 12 | 9 | 53 |

**Rhagamcanion**

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion LIC, mae'n ofynnol cynnwys rhagamcanion 5 mlynedd o'r niferoedd disgyblion ar y gofrestr. Mae'r rhagamcanion wedi eu seilio ar ddata CYBLD 2024 a chyfradd geni Ceredigion.

**Craig yr Wylfa**

| Craig yr Wylfa | Ionawr 2025 | Ionawr 2026 | Ionawr 2027 | Ionawr 2028 | Ionawr 2029 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagamcanion disgyblion | 27 | 29 | 28 | 24 | 22 |

Mae'r nifer o geisiadau a dderbyniwyd i fynychu Ysgol Craig yr Wylfa wedi'u crynhoi isod. Dyddiad cau ceisiadau ar gyfer unrhyw flwyddyn academaidd yw 31 Ionawr y flwyddyn flaenorol.

Nifer o geisiadau a dderbyniwyd i Ysgol Craig yr Wylfa (sefyllfa ar 3/10/24):

| Blwyddyn Academaidd | Medi | Ionawr | Ebrill | Cyfanswm ar gyfer y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| **2024/25** | Ddim yn berthnasol | 0 | 3 | 3 |
| **2025/26** | 3 | 0 | 1 | 4 |
| **2026/27** | 2 | 1 | 0 | 3 |
| **2027/28** | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **2028/29** | 0 | 0 | 0 | 0 |

Ar sail y nifer o geisiadau a dderbyniwyd, bydd 24 o ddisgyblion yn Ysgol Craig yr Wylfa ym mis Ionawr 2025 h.y. 3 yn llai na'r rhagamcan.

Erbyn Medi 2025:

| | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer disgyblion Craig yr Wylfa | 6 | 1 | 5 | 2 | 5 | 5 | 4 | 28 |

**Talybont**

| Talybont | Ion 2025 | Ion 2026 | Ion 2027 | Ion 2028 | Ion 2029 |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagamcanion disgyblion | 54 | 51 | 43 | 38 | 35 |

Nifer o geisiadau a dderbyniwyd i Ysgol Talybont (sefyllfa ar 3/10/24):

| Blwyddyn Academaidd | Medi | Ionawr | Ebrill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **2024/25** | Ddim yn berthnasol | 3 | 4 | 7 |
| **2025/26** | 1 | 1 | 0 | 2 |
| **2026/27** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **2027/28** | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **2028/29** | 1 | 0 | 0 | 1 |


Ar sail y nifer o geisiadau a dderbyniwyd, bydd 56 o ddisgyblion yn Ysgol Talybont ym mis Ionawr 2025 h.y. 2 yn fwy na'r rhagamcan.


Erbyn Medi 2025:

| | D | Bl 1 | Bl 2 | Bl 3 | Bl 4 | Bl 5 | Bl 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Niferoedd disgyblion Talybont | 8 | 3 | 5 | 8 | 7 | 9 | 12 | 52 |

Niferoedd disgyblion **Medi 2025**, pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu:

| | D | Bl 1 | Bl 2 | Bl 3 | Bl 4 | Bl 5 | Bl 6 | Cyfan swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Niferoedd disgyblion Craig yr Wylfa | 6 | 1 | 5 | 2 | 5 | 5 | 4 | 28 |
| Niferoedd disgyblion Talybont | 8 | 3 | 5 | 8 | 7 | 9 | 12 | 52 |
| **Cyfanswm** | **14** | **4** | **10** | **10** | **12** | **14** | **16** | **80** |




**c. Capasiti**

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi:

*"Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth ac ystyried os y dylent wneud cynigion ar gyfer cael gwared arnynt, os y bydd yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darpariaeth. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol (fel y'i diffinnir yng Nghylchlythyr 21/2011: llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/mesur-capasiti-ysgolion-yng-nghymru-cylchlythyr.pdf) ac o leiaf 30 o leoedd gwag"*

| Enw'r Ysgol | Niferoedd disgyblion Hydref 2024 | Capasiti'r ysgol | Lleoedd gwag | % lleoedd gwag |
|---|---|---|---|---|
| Craig yr Wylfa | 24 | 74 | 50 | 68% |
| Talybont | 53 | 127 | 74 | 58% |

**Medi 2025**

Os bydd y cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa a symud y disgyblion i Ysgol Talybont yn cael ei gymeradwyo, bydd y nifer o leoedd gwag yn disgyn i 47 sef 37% o leoedd gwag.

Mae'r tabl isod, ynghyd â'r rhagamcanion ar gyfer y ddwy ysgol yn cadarnhau bod capasiti digonol yn Ysgol Talybont i fedru derbyn y disgyblion o Ysgol Craig yr Wylfa.

| | Cyfuniad Nifer disgyblion Medi 2025 | Capasiti'r ysgol | Lleoedd gwag | % Lleoedd gwag |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfuniad o Craig yr Wylfa a Talybont** | 80 | 127 | 47 | 37% |

**d. Meithrin**

Dim darpariaeth Meithrin yn Ysgol Craig yr Wylfa na Ysgol Talybont.

Mae Cylch Meithrin wedi ei leoli ar safle Ysgol Talybont.

**e. Ansawdd adeiladau**

Yn 2019, penodwyd Faithful + Gould gan Gyngor Sir Ceredigion, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, i gynnal arolwg o bob ysgol, gan ddefnyddio methodoleg 'Ysgolion yr 21ain Ganrif' i bennu graddfa cyflwr cyffredinol.

Dyluniwyd Methodoleg Ysgolion yr 21ain Ganrif i ddarparu darlun cyson a chymaradwy o gyflwr ysgolion ac fe'i defnyddir fesul bloc, gyda phob adeilad yn cael ei rannu yn ôl 12 prif elfen, sef toau, lloriau a staerau, nenfydau, waliau allanol, ffenestri a drysau, gwasanaethau hylendid, ailaddurno, dodrefn gosod a ffitiadau, ardaloedd allanol, cae chwarae, gwasanaethau mecanyddol a gwasanaethau trydanol. Pennwyd graddfa cyflwr cyffredinol yn ogystal ag amcangyfrif o'r ôl-groniad o gostau cynnal a chadw.

Hefyd, cynhaliwyd asesiad addasrwydd oedd yn canolbwyntio ar yr amgylchedd, cynllun y safle, lleoliad, hyblygrwydd, gofynion gwasanaethu, yr amgylchedd allanol cyffredinol, a maint yr ystafelloedd allweddol.

| | **Graddfa Cyflwr** | **Ôl-groniad Costau Cynnal a Chadw** | **Graddfa Addasrwydd** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Craig yr Wylfa | C | £90,640 | B |
| Ysgol Talybont | B | £69,506 | B |

Diffiniadau'r Graddfeydd Cyflwr

| **Graddfa** | **Diffiniad** |
|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon |
| B | Boddhaol ond wedi dirywio ychydig |
| C | Gwael gyda diffygion mawr |
| D | Gwael, oes wedi dod i ben neu berygl o fethiant disymwth |

Diffiniadau'r Graddfeydd Addasrwydd

| **Graddfa** | **Diffiniad** |
|---|---|
| A | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer dysgu, addysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad, ond ddim yn caniatáu darparu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai rhannau |
| C | Gwael. Yn amharu ar ddulliau addysgu/yn cael effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol |
| D | Gwael. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i ddarparu'r cwricwlwm |

Cynhaliwyd arolwg mwy diweddar ar 18 Ebrill 2024 a 1 Hydref 2024 gan y Rheolwr Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol a'r Rheolwr Gweithrediadau o'r Awdurdod Lleol, sydd â chymwysterau RIBA a MRICS.  Seiliwyd yr arolwg ar wybodaeth arolwg blaenorol Faithful + Gould.  Mae'r gwaith diweddaraf a nodwyd ac amcangyfrif o'r costau wedi'u rhestru isod:

**Ysgol Craig Yr Wylfa**

| Elfen | Disgrifiad o'r Elfen | Cost yr Elfen |
|---|---|---|
| **Prif Adeilad** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Lloriau a staerau | Ailosod y llawr presennol yn y swyddfa, y toiledau ac ardaloedd cyffredinol | £ 5,000.00 |
| Waliau mewnol a drysau | Trwsio gwaith plastro diffygiol ac ailaddurno waliau ardaloedd ar wahân | £ 5,000.00 |
| Toau | Glanhau'r gwteri dŵr glaw presennol ar yr holl adeiladau | £ 3,000.00 |
| Portacaban | Ystyrir bod y portacaban wedi dod at ddiwedd ei oes ac mae angen ei symud / gosod un newydd yn ei le. Nodir cost ei symud yn unig. | £ 8,000.00 |
| | | |
| Mecanyddol | Ailosod y ffaniau darfudol presennol | £ 6,000.00 |
| Trydanol | Ailosod y bwrdd dosbarthu presennol | £ 13,000.00 |
| | **Cyfanswm Cost** | **£ 40,000.00** |

**Ysgol Talybont**

| Element | Element Description | Element Cost |
|---|---|---|
| **Prif adeilad Bloc 1** | | |
| To | Glanhau'r cafnau dŵr glaw presennol, glanhau'r mwsogl i orchudd y to ac adlinio'r cafnau | £ 2,000.00 |
| Nenfwd | Peth difrod dŵr a staenio i nenfydau mewnol mewn ardaloedd unigol / dosbarthiadau, angen atgyweirio ac addurno | £ 2,000.00 |
| Waliau allanol, ffenestri a drysau | Atgyweirio difrod i'r rendrad allanol i'r neuadd. Newid uned gwydr dwbl anaddas yn ardal y cyntedd | £ 1,000.00 |
| **Block 3 - Caban** | | |
| To | Gosod darnau o gwteri yn lle'r rhai sydd ar goll, eu glanhau a'u hadlinio | £ 500.00 |
| Ardaloedd allanol | Gwaredu dail a gordyfiant o'r adeilad a mannau cyffredinol allanol | £ 1,000.00 |

| | | |
|---|---|---|
| Wal allanol, ffenestri a drysau | Newid 4 uned gwydr dwbl anaddas | £ 1,400.00 |
| Trydanol | Gosod LED newydd yn lle'r goleuadau nenfwd presennol | £ 4,000.00 |
| **Bloc 5- Estyniad** | | |
| To | Glanhau'r cafnau dŵr glaw presennol, glanhau'r mwsogl i orchudd y to ac adlinio'r cafnau | £ 1,000.00 |
| | | |
| | **Cyfanswm** | **£ 12,900.00** |

**3. ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG**

**(i) Cymhariaeth o'r ansawdd a'r safonau addysg yn Ysgol Craig yr Wylfa o gymharu ag Ysgol Talybont**

**Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau mewn Addysg**

Byddai'r disgyblion yn cael eu symud i ysgol gyda charfan fwy o ddisgyblion, lle byddent yn debygol o gael mynediad at adnoddau gwell i gwrdd â gofynion Cwricwlwm i Gymru yn fwy effeithiol. Bydd y disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau ystod oedran agosach oherwydd bod gan Ysgol Talybont fwy o ddosbarthiadau na Ysgol Craig yr Wylfa.

Byddai'r disgyblion yn debygol o gael mynediad ar amrywiaeth ehangach o weithgareddau addysgol ac allgyrsiol, am fod mwy o gyfleoedd ar gael oherwydd mwy o ddisgyblion ymhob grŵp oedran.

Mae Cylch Meithrin ar y safle er mwyn denu mwy o ddisgyblion.

***Effaith debygol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol, o ran grwpiau penodol ac o ran sgiliau***

Byddai cynyddu nifer y disgyblion o oedran / cyfnod tebyg o fewn pob dosbarth yn debygol o annog mwy o gydweithio, gan hyrwyddo cynnydd a safonau ymhellach. Byddai disgyblion yn cael cyfle i weithio gyda mwy o gyfoedion o oedran / cyfnod tebyg, a gall hyn annog mwy o ddysgu ar y cyd. Gellid hefyd cynnig mwy o gyfleoedd allgyrsiol, megis chwaraeon tîm / corau / gweithgareddau cystadleuol, gyda nifer uwch o ddisgyblion.

***Lles ac agweddau at ddysgu***

Oherwydd y nifer uwch o ddisgyblion o oedran / cyfnod tebyg, mi fydd yna effaith bositif debygol ar les y disgyblion a'u hagwedd at ddysgu. Mi fydd hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd cyfeillgarwch / cymdeithasol am fod yna fwy o ddisgyblion i gydweithio â nhw o fewn pob dosbarth / ar draws yr ysgol.

**Profiadau dysgu ac addysgu**

***Ansawdd yr addysgu***

Dim effaith bosib am fod ansawdd yr addysgu'n dda ar draws y ddwy ysgol ar hyn o bryd.

***Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm***

Dim effaith bosib am fod ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm yn dda ar draws y ddwy ysgol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mi fydd yna fwy o gyfleoedd i gydweithio, all wella'r dysgu yn y pen draw.

***Darparu sgiliau***

Dim effaith bosib am fod darparu sgiliau'n dda ar hyn o bryd ar draws y ddwy ysgol. Fodd bynnag, gyda nifer uwch o ddisgyblion o'r un oedran / cyfnod, gall datblygiad sgiliau wella ymhellach.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

***Tracio, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu***

Dim effaith bosib am fod y ddarpariaeth o gymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu yn dda ar draws y ddwy ysgol ar hyn o bryd.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth**

***Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynlluniau gwella***

Bydd y cynnig yn golygu bydd gan y pennaeth gyfrifoldeb ar gyfer un ysgol yn unig. Bydd hyn yn galluogi'r Pennaeth i gael mwy o gapasiti i ganolbwyntio ar holl ofynion o fod yn gyfrifol am arwain a rheoli'r ysgol.

***Dysgu proffesiynol***

Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol yn yr ysgol amgen.

***Defnydd o adnoddau***

Bydd y cynnig yn arwain at resymoli adeiladau ysgol.  Bydd y cynnydd mewn niferoedd disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd effeithlon o adnoddau i gyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.

**(ii) Estyn**

**Craig yr Wylfa**

Cafodd Craig Yr Wylfa ei harolygiad diwethaf gan Estyn yn Rhagfyr 2021 a chadarnhawyd y canlynol -

'Bernir bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol i fynd i'r afael ag argymhellion arolygiad Adran 28.  Mae'r ysgol wedi'i thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen adolygiad Estyn.  Ni fydd unrhyw weithgaredd monitro pellach mewn perthynas â'r arolygiad hwn.'

Tachwedd 2019

| Maes Arolygu | Dyfarniad |
|---|---|
| Safonau | Digonol ac angen gwelliant |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Digonol ac angen gwelliant |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol ac angen gwelliant |

Dyma'r argymhellion:

A1  Gwella sgiliau Cymraeg llafar y disgyblion

A2  Cryfhau cynlluniau ar gyfer gweithdrefnau gwella, i wneud gwelliannau'n fwy effeithiol ac amserol

A3  Cynyddu disgwyliadau athrawon er mwyn darparu her briodol i ddisgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A4  Gwella sgiliau dysgu annibynnol y disgyblion

**Talybont**

Cafodd Ysgol Talybont ei harolygiad diwethaf gan Estyn yn Mehefin 2024.

Dyma'r argymhellion:

A1 Sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Ymestyn cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud penderfyniadau am sut i gyflwyno eu gwaith yn gynyddol annibynnol

**(iii) Effaith debygol y cynnig ar gyflenwi'r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen a'r holl Gyfnodau Allweddol**

Ar hyn o bryd dim ond un dosbarth Cyfnod Dysgu Sylfaen ac un dosbarth CA2 sydd yn Ysgol Craig yr Wylfa. Yn y Cyfnod Dysgu Sylfaen, mae disgyblion o'r dosbarth Derbyn hyd at flwyddyn 2 (4 - 7 oed) yn cael eu haddysgu o fewn un ystafell ddosbarth, ac o Ionawr i Orffennaf yn ystod pob blwyddyn academaidd, mae disgyblion iau nag oedran derbyn hefyd yn rhan o drefniant y dosbarth hwn. O fewn CA2, mae disgyblion o flynyddoedd 3 i 6 yn cael ei haddysgu o fewn yr un ystafell ddosbarth.

Drwy symud i ysgol sydd â charfan sy'n cynnwys mwy o ddisgyblion, bydd digon o ddisgyblion i greu rhagor o ddosbarthiadau sy'n addas i'r oedran/cyfnod datblygu a hynny ar draws yr ysgol. Drwy hyn gellir dysgu yn fwy pwrpasol a phenodol gan alluogi'r holl ddisgyblion i wneud mwy o gynnydd ar draws y continwwm.

## 4. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG (CSGA)

Ysgolion cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Talybont. Nid yw'r cynnig wedi ei gysylltu'n uniongyrchol â'r targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol.

Byddai'r cynnig yn parhau ag argaeledd darpariaeth iaith Gymraeg.

## 5. CYLLID

Mae'r gwerthusiad ariannol isod yn manylu ar y sefyllfa bresennol a'r costau i'r ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cyllideb lawn 2023-24[2]** | **£199,169** |
| **Gwariant gwirioneddol 2023-24** | **£214,764** |
| **Gwarged/ (diffyg) ar 31/3/24** | **£4,170** |
| **Cyllideb blwyddyn lawn 2024-25[3]** | **£209,360** |
| **Amcangyfrif gwarged (diffyg) ar 31/3/25** | **-£3,368** |
| **Cost fesul disgybl 2024-25** | **£7,219** |
| **Cost cyfartalog fesul disgybl ar gyfer Ceredigion 2024-25** | **£4,954** |

Erbyn 31/3/25, rhagwelir y bydd Ysgol Craig yr Wylfa yn wynebu diffyg cyllidebol o £3,368.

[2] Cyfrifir cyllideb 2023-24 ar sail nifer y plant yn yr ysgol ar CYBLD 23
[3] Cyfrifir cyllideb 2024-25 ar sail nifer y plant yn yr ysgol ar CYBLD 24

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o arbedion/costau posib y cynnig

| Manylion | Arbediad (cost) posib |
|---|---|
| **Arbedion posib cyllid dirprwyedig** | £107,911[4] |
| **Cymorth y trefniant partneriaeth** | £40,037 |
| **Llai:-** | |
| **Amcangyfrif o gostau cludiant[5]** | - £61,750 (£325[5] y dydd X 190 diwrnod) |
| **Arbedion net** | £86,198 |

Amcangyfrifir y byddai'r arbedion refeniw blynyddol i'r Cyngor oddeutu £86,198. Mae'r cyfanswm cyffredinol yn cynnwys arbedion posib i gyllid dirprwyedig ysgolion o £107,911 a chostau cludiant ychwanegol amcangyfrifedig o £61,750. Yn ogystal, bydd arbediad o £40,037 a ddarperir ar hyn o bryd i gefnogi'r bartneriaeth rhwng y ddwy ysgol.

Caiff costau refeniw rheolaidd eu cadw o fewn y Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig, ochr yn ochr â sicrhau darpariaeth gyllidebol briodol ar gyfer unrhyw newidiadau gofynnol i'r cludiant statudol o'r cartref i'r ysgol.

Roedd y cynigion arbedion a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 29 Chwefror 2024 yn cynnwys argymhelliad bod y Gwasanaeth Ysgolion yn adolygu hyfywedd yr ystâd ysgolion i'r dyfodol.

Ni ragwelir y bydd angen unrhyw waith adeiladu er mwyn sicrhau bod lle i'r disgyblion sydd yn mynychu Ysgol Craig yr Wylfa ar hyn o bryd yn Ysgol Talybont.

Bydd y cynnig yn arwain at leihau'r ystâd ysgolion ac yn gwella rheolaeth strategol. Nid yw'r cynnig yn ffurfio rhan o raglen fuddsoddi strategol yr 21ain Ganrif.

## 6. TIR AC ADEILADAU

Os mai argymhelliad y Cabinet a chymeradwyaeth ddilynol y Cyngor yn dilyn ymgynghoriad statudol, bydd i gau, bydd yr ysgol yn y lle cyntaf yn cael ei chynnig fel adnodd i'r gymuned leol. Fodd bynnag, os na fydd diddordeb gan y gymuned, bydd yr ysgol yn cael ei rhoi ar y farchnad agored i'w gwerthu a bydd y derbyniad cyfalaf yn cael ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol i ddatblygu'r Rhaglen Ysgolion Cynaliadwy ar gyfer Dysgu h.y. bydd unrhyw gyfalaf a dderbynnir o safleoedd segur yn cael ei neilltuo a'i ddefnyddio fel arian cyfatebol, gan helpu i gyflenwi prosiectau yn y dyfodol a fydd yn cyfrannu at raglen fuddsoddi strategol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

[4] Mae'r swm hwn yn cael ei gyfrifo trwy ddidynnu'r Gwerth Cyfartalog Pwysoledig Disgybl (AWPV), AAA + costau PYDd i'r disgyblion o gyllideb lawn yr ysgol. Bydd y gost AWPV, AAA + PYDd yn mynd gyda'r plentyn i'r ysgol amgen

[5] Yn seiliedig ar amcangyfrif a dderbyniwyd gan gontractwr trafnidiaeth ar 2/10/24

**Effaith y cynnig ar y gymuned**

Mae Asesiad Effaith ar y Gymuned ar wahân ar gael fel rhan o'r ymgynghoriad.

**Effaith y cynnig ar staff**

Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai Ysgol Craig yr Wylfa yn cau. Byddai angen proses ddiswyddo staff ar gyfer staff a gyflogir ar hyn o bryd yn Ysgol Craig yr Wylfa. Byddai hyn yn cael ei wneud yn unol â'r 'Polisi Rheoli Newid Sefydliadol mewn Ysgolion' ar gyfer staff addysgu a staff cefnogi. Byddai'r staff glanhau ac arlwyo sy'n cael eu cyflogi'n ganolog gan yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd, yn cael eu cefnogi gan y Polisi Rheoli Newid ar gyfer gweithwyr Awdurdod Lleol.

**Trefniadau Derbyn**


Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Tîm Derbyniadau Ysgolion yn anfon llythyr at rieni/gwarcheidwaid yr holl blant sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Ar ôl derbyn y llythyr, bydd angen i:

- Rieni gysylltu â'r ysgol o'u dewis
- Rhieni i gwblhau cais ar-lein: https://eforms.ceredigion.gov.uk/admissions/?countyId=667
- Awdurdod Lleol i hysbysu rhieni a yw'r cais am fynediad wedi ei gymeradwyo

**Effaith ar amserau teithio disgyblion**

Nodir isod y pellter a deithiwyd i'r ysgol gan y carfan presennol o ddisgyblion.

Lleolir Ysgol Talybont llai na 5 milltir o Ysgol Craig yr Wylfa a bydd trafnidiaeth am ddim yn cael ei ddarparu yn unol â'r Polisi Trafnidiaeth: , polisi-cludiant-or-cartref-ir-ysgol-coleg.pdf (ceredigion.gov.uk). Ystyrir bod hyd y siwrnai at y ddarpariaeth amgen yn dderbyniol, ac ymhell o fewn yr uchafswm amser teithio o 45 munud ar gyfer disgyblion cynradd, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.



**Costau trafnidiaeth ysgolion**

Mae costau trafnidiaeth wedi eu hamcangyfrif yn £325 y dydd. Mae'r gost wedi'i chynnwys yn y dadansoddiad ariannol o'r cynnig.

Does dim trafnidiaeth yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd i fynychu Ysgol Craig yr Wylfa. Felly, amcangyfrifir mai'r gost ychwanegol byddai £325 y dydd.

**Llwybrau cerdded i'r darpariaeth amgen**

Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r disgyblion hynny nad ydynt yn derbyn trafnidiaeth yn parhau i gerdded i fan codi y cytunwyd arno yn Craig yr Wylfa er mwyn derbyn trafnidiaeth am ddim i fynychu Ysgol Talybont.

Ar gyfer y plant hynny lle mai Ysgol Craig yr Wylfa yw eu hysgol agosaf, byddai angen iddynt deithio'n ychwanegol er mwyn cael mynediad at y ddarpariaeth amgen. I'r disgyblion hynny, mae'n annhebygol y byddai cerdded neu feicio i'r ysgol amgen yn bosib.

**CRYNODEB O'R PRIF HERIAU SY'N WYNEBU'R YSGOL A SUT BYDDAI'R CYNNIG YN MYND I'R AFAEL â RHAIN**

| | **Heriau Allweddol** | **Sut y bwriedir mynd i'r afael â nhw** |
|---|---|---|
| **Niferoedd disgyblion** | Yn ôl ffigurau CYBLD mae'r niferoedd disgyblion yn isel, ac wedi gostwng o 42 disgybl yn 2020 i 29 disgybl yn 2024. | Bydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau ystod oedran agosach. |
| **Rhagamcanion niferoedd disgyblion** | Mae'r rhagamcanion yn dangos gostyngiad pellach dros y 5 mlynedd nesaf i 22 disgybl erbyn 2029 | Byddai'r disgyblion yn cael eu trosglwyddo i ysgol gyda charfan fwy o ddisgyblion ac yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau ystod oedran agosach. |
| **Darparu'r cwricwlwm** | Un dosbarth yn y cyfnod dysgu sylfaen ac un yng nghyfnod allweddol 2. | Byddai'r disgyblion yn cael eu trosglwyddo i ysgol gyda charfan fwy o ddisgyblion lle byddent yn debygol o gael mynediad at well adnoddau, i gwrdd mewn ffordd fwy effeithiol â gofynion y cwricwlwm newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Lleoedd dros ben** | Ar hyn o bryd mae 50 o leoedd dros ben yn Ysgol Craig yr Wylfa sef 68% | Mae digon o le yn Ysgol Talybont ar gyfer yr holl ddisgyblion. |
| **Cost fesul disgybl** | Y gost fesul disgybl yn Ysgol Craig yr Wylfa yw £7,219 sydd £2,265 yn uwch na chyfartaledd Ceredigion o £4,954 (data 2024/25). | Lleihau'r gost fesul disgybl. |
| **Cyllideb yr ysgol** | Mae'r gostyngiad yn nifer y disgyblion dros gyfnod cymharol fyr wedi rhoi pwysau sylweddol ar gyllideb yr ysgol a rhagwelir y bydd diffyg cyllidebol erbyn Mawrth 2025. | Byddai'r disgyblion yn symud i ysgol gyda charfan fwy o ddisgyblion gan sicrhau defnydd mwy effeithiol o adnoddau'r ysgolion a'r Cyngor. |

## 7. OPSIYNAU AMGEN I GAU

### Un Ysgol ar ddau safle – Safle Craig yr Wylfa a Safle Talybont– byddai gan yr ysgol hon un Corff Llywodraethol ac un gyllideb

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| Cadw'r ddarpariaeth ar y ddau safle | Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r niferoedd disgyblion isel |
| Dim costau cludiant ychwanegol i'r Awdurdod Lleol | Yr angen i gynnal dau adeilad |
| Un hunaniaeth ysgol | Byddai lleoedd gwag o hyd |
| Arolygir y ddau safle fel un ysgol | Colli ymreolaeth |
| | Ni fyddai'n arwain at yr arbedion ariannol gofynnol |
| | Byddai'r atebolrwydd dros gynnal a chadw'r adeiladau'n parhau, nawr ac yn y dyfodol |
| | Yr her o gael un dosbarth yn unig yn y Cyfnod Dysgu Sylfaen a'r dosbarth arall yng Nghyfnod Allweddol 2, i gwrdd yn effeithiol â gofynion darparu Cwricwlwm i Gymru. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Cyfleoedd posib ar gyfer mwy o gydweithio rhwng y ddau safle | Gall nifer y disgyblion ar safle Craig yr Wylfa barhau i ostwng |

### Effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Byddai'r disgyblion yn parhau i dderbyn y ddarpariaeth bresennol ar ddau safle felly mae'n debygol na fyddai unrhyw effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg, ond gall fod mwy o gyfle ar gyfer cydweithio pellach a rhannu adnoddau staff.

**Effaith debygol ar y gymuned**

Rhagwelir na fyddai fawr o effaith ar y gymuned am fod hwn yn barhad o'r ddarpariaeth bresennol ar ddau safle. Byddai angen sicrhau bod y Corff Llywodraethu newydd yn cynnwys cydbwysedd o aelodau'r ddwy gymuned hefyd.

**Effaith debygol amserau teithio gwahanol**

Rhagwelir na fyddai unrhyw effaith ar y trefniadau teithio am fod hwn yn barhad o'r ddarpariaeth bresennol ar ddau safle.

**Ffederasiwn Ffurfiol rhwng Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Talybont**

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| Cadw hunaniaeth yr ysgol | Byddai angen cynnal ymgynghoriad ar wahân i gydymffurfio gyda canllaw LIC 011/2014 – 'Proses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru' |
| Dim amharu ar staff na disgyblion | Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r niferoedd disgyblion isel |
| Cadw presenoldeb yn y gymuned leol | Angen cynnal y ddau adeilad ysgol |
| Un Corff Llywodraethol | Ni fyddai'n arwain at arbedion ariannol gofynnol |
| Dim costau trafnidiaeth ychwanegol i'r Awdurdod Lleol | Byddai'r gost fesul disgybl yn Ysgol Craig yr Wylfa yn parhau 46% yn fwy na'r cyfartaledd sirol |
| | Byddai'r atebolrwydd yn parhau o ran cynnal a chadw adeiladau, nawr ac yn y dyfodol |
| | Ni fyddai'n debygol o wella hyfywedd yr ystâd ysgolion yn y dyfodol |
| | Mi fyddai dwy gyllideb ar wahân o hyd, a allai greu anawsterau gweithredu |
| | Yr her o gael un dosbarth yn unig yn y Cyfnod Dysgu Sylfaen a'r dosbarth arall yng Nghyfnod Allweddol 2, i gwrdd yn effeithiol â gofynion darparu Cwricwlwm i Gymru. |
| | Byddai'r ddwy ysgol yn parhau i gael eu harolygu fel endidau ar wahân a byddai'n ofynnol iddynt ddarparu datganiadau unigol i Lywodraeth Cymru |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Cyfle i rannu arbenigedd staff ar draws y ddau safle | Gall nifer y disgyblion yn Ysgol Craig yr Wylfa barhau i ostwng |

**Effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**

Byddai'r disgyblion yn parhau i dderbyn y ddarpariaeth bresennol felly mae'n debygol na fyddai unrhyw effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg.

**Effaith debygol ar y gymuned**

Rhagwelir na fyddai fawr o effaith ar y gymuned am fod hwn yn barhad o'r ddarpariaeth bresennol. Byddai angen sicrhau bod y Corff Llywodraethu newydd yn cynnwys cydbwysedd o aelodau'r ddwy gymuned hefyd.

**Effaith debygol amserau teithio gwahanol**

Rhagwelir na fyddai unrhyw effaith ar y trefniadau teithio am fod hwn yn barhad o'r ddarpariaeth bresennol, ond petai yna gydweithio pellach i sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at weithgareddau neu ddigwyddiadau ar y cyd, gall fod angen peth teithio ychwanegol

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa. Dyma'r cynnig:**

- **Cau Ysgol Craig yr Wylfa o 31 Awst 2025, gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Talybont**

**Manylion yr ymgynghoriad statudol**

**Cyfleoedd ymgyngoreion**

Mae gan ymgyngoreion gyfle i:

- wneud sylwadau ynghylch yr opsiynau eraill a nodwyd gan y cynigydd yn ogystal ag ynghylch y prif gynnig;
- awgrymu opsiynau eraill a fyddai'n goresgyn y problemau sydd y tu ôl i'r cynnig i gau'r ysgol (h.y. y prif heriau sy'n wynebu'r ysgol y mae'r cynigydd am geisio ymateb iddynt)

**Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori?**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori gydag ystod o randdeiliaid fel sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion sy'n cynnwys y canlynol:

- Rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid ac aelodau staff Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Talybont
- Corff Llywodraethol Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Talybont
- Cynghorwyr y Cyngor Sir
- Llywodraeth Cymru
- Aelodau cynulliad Etholaethol a Rhanbarthol ac Aelod Seneddol
- Estyn
- Undebau Athrawon ac undebau staff eraill mewn ysgolion
- PACC (Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru)
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Disgyblion yr ysgol – yn unol â chod Trefniadaeth Ysgolion LlC, bydd ymgynghori â disgyblion yn digwydd yn unol â safonau cyfranogiad cenedlaethol plant a phobl ifanc Cymru.

**Y Cyfnod Ymgynghori**

Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 14 Hydref ac yn dod i ben ar 3 Rhagfyr 2024.

**Y broses statudol**

Er mwyn gweithredu'r cynnig presennol, mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r gweithdrefnau fel y'u cadarnhawyd yn y cod statudol:

**I. Ymgynghori**

- Cyhoeddi Dogfen Ymgynghori (y ddogfen hon) yn cadarnhau manylion y cynnig – bydd y ddogfen hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Lleol yn ogystal â chael ei hanfon at yr holl rhanddeiliaid a restrir uchod
- Bydd cyfnod o 42 diwrnod i ymateb i'r cynnig, lle gall rhanddeiliaid:
  - wneud sylwadau ynghylch yr opsiynau eraill a nodwyd gan y cynigydd yn ogystal ag ynghylch y prif gynnig;
  - awgrymu opsiynau eraill a fyddai'n goresgyn y problemau sydd y tu ôl i'r cynnig i gau'r ysgol (h.y. y prif heriau sy'n wynebu'r ysgol y mae'r cynigydd am geisio ymateb iddynt).

  Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb yr Awdurdod Lleol i unrhyw faterion a godwyd. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Lleol.
- Bydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn ystyried yr Adroddiad Ymateb i'r Ymgynghoriad ac yn rhoi adborth i'r Cabinet. Gall yr adborth hwn gynnwys argymhellion.
- Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori, yr adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig hwn.

ii. Hysbysiad Statudol

- Os bydd Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi gyda manylion gan gynnwys y dyddiad gweithredu arfaethedig, a sut i wrthwynebu. Bydd cyfnod o 28 diwrnod i bobl gyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig.
- Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn.
- Os bydd gwrthwynebiadau, bydd adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyhoeddi a fydd yn rhoi crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb yr Awdurdod Lleol iddynt. *Mae'n bwysig nodi mai gwrthwynebiadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod Hysbysiad Statudol yn unig bydd yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau a'u cynnwys yn yr Adroddiad Gwrthwynebu. NI fydd sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Gwrthwynebu. Petai rhanddeiliaid am i'w gwrthwynebiadau gael eu cynnwys fel*

*gwrthwynebiadau, byddai angen iddynt gael eu hailgyflwyno yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod Hysbysiad Statudol.*

iii. Gweithredu'r cynnig

Os bydd y Cyngor yn penderfynu cymeradwyo'r cynnig, byddai'n cael ei weithredu yn unol â'r dyddiad a roddir yn yr Hysbysiad Statudol neu unrhyw ddyddiad diwygiedig dilynol.

Nodir isod yr amserlen arfaethedig a fydd yn dilyn y broses ganlynol:

| Dyddiad | Gweithred |
|---|---|
| 14 Hydref – 3 Rhagfyr 2024 | **Cyfnod ymgynghori statudol** (42 diwrnod) – bydd cyfle i:<br>• wneud sylwadau ynghylch yr opsiynau eraill a nodwyd gan y cynigydd yn ogystal ag ynghylch y prif gynnig;<br>• awgrymu opsiynau eraill a fyddai'n goresgyn y problemau sydd y tu ôl i'r cynnig i gau'r ysgol (h.y. y prif heriau sy'n wynebu'r ysgol y mae'r cynigydd am geisio ymateb iddynt) |
| 13 Chwefror 2025 | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu** – ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ac i wneud argymhelliad(ion) i Cabinet. |
| 18 Chwefror 2025 | Adroddiad Ymgynghori ffurfiol ynghyd â'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn cael eu cyflwyno i'r **Cabinet** er mwyn gwneud penderfyniad ar a ddylid fwrw ymlaen â chyhoeddi Hysbysiad Statudol. |
| Chwefror / Mawrth 2025 | **Cyfnod Hysbysiad Statudol** – cyfle i gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynnig – rhaid i'r gwrthwynebiad fod yn ysgrifenedig neu ar ffurf e-bost ac wedi ei anfon cyn ddiwedd y 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad. |
| Mehefin / Gorffennaf 2025 | **Cyngor –** Os bydd gwrthwynebiadau yn cael eu cyflwyno, bydd adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyflwyno a fydd yn rhoi crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb yr Awdurdod Lleol iddynt. Bydd y penderfyniad terfynol ar a ddylid fwrw ymlaen i weithredu'r cynnig yn cael ei wneud. |

**Sut i ymateb i'r ymgynghoriad**

Mae ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ynghlwm wrth y ddogfen hon. Mae fersiwn ar-lein hefyd ar gael ar wefan y Cyngor wrth ddilyn y ddolen ganlynol: https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/ysgolion-ac-addysg/cynllunior-ddarpariaeth-addysg/

Dylid postio neu e-bostio ffurflenni wedi'u cwblhau at y canlynol:

Postio: Prif Swyddog Addysg, Gwasanaeth Ysgolion, Ail Lawr, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE

e-bost: adolygu.ysgolion@ceredigion.gov.uk

Dylid derbyn pob gohebiaeth erbyn **3 Rhagfyr 2024.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y broses ymgynghori, neu os ydych chi am dderbyn copi caled cysylltwch â ni ar y manylion uchod neu ffoniwch: 01545 570881

**FFURFLEN YMATEB – Cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa o 31/8/25, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Talybont.

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu rhanddeiliaid wneud sylwadau ar y prif gynnig, yr opsiynau amgen ac awgrymu opsiynau eraill.

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

---

1. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cysylltiad â'r ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio arni?

☐ rhiant/ gofalwr neu warcheidwad ☐ darpar riant / gofalwr neu warcheidwad

☐ Llywodraethwr ☐ Staff

☐ Aelod o'r gymuned ☐ Cyngor cymuned

☐ Arall: nodwch os gwelwch yn dda ___________________________

2. Rhowch unrhyw sylwadau ar y cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa:

3. A oes unrhyw opsiynau eraill y credwch y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Craig yr Wylfa, a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y Ddogfen Ymgynghori?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os oes, amlinellwch yr opsiwn (opsiynau amgen):

4. A oes gennych unrhyw bryderon am effaith y cynnig i gau Ysgol Craig yr Wylfa ar unrhyw un o'r canlynol:

☐ y Gymuned

☐ Pobl â nodweddion gwarchodedig *h.y. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol*

☐ Arall: Nodwch os gwelwch yn dda ____________________

Rhowch fanylion pellach isod:

5. Yn unol â Safonau'r Gymraeg mae'n ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai'r cynnig hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

b. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effaith positif neu mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

c. Sut ydych chi’n credu y gallai’r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu fel na fyddai’n cael effeithiau andwyol neu’n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi yn crynhoi’r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i’r materion hynny.

A hoffech chi gael gwybod am gyhoeddiad yr Adroddiad Ymgynghori?

☐ Ie ☐ Na

Os oes, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post:

____________________________________________________________

Diolch am gwblhau'r ffurflen ymateb

Dylid anfon ffurflenni ymateb wedi'u cwblhau i'r cyfeiriad canlynol, i gyrraedd erbyn

**3 Rhagfyr 2024** fan bellaf neu eu hanfon i'r cyfeiriad e-bost isod.

Prif Swyddog Addysg,

Gwasanaeth Ysgolion,

Ail Lawr,

Canolfan Rheidol,

Rhodfa Padarn,

Llanbadarn Fawr,

Aberystwyth,

SY23 3UE

E-bost: adolygu.ysgolion@ceredigion.gov.uk